PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2021 – Gorffennaf 2022

PRIFYSGOL BANGOR / BANGOR UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG

## Awst 2021 – Gorffennaf 2022

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG PRIFYSGOL BANGOR

## RHAGYMADRODD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar weithrediad y Safonau Iaith Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r camau y mae'r Brifysgol wedi'u rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith ac yn tynnu sylw at rai llwyddiannau penodol ac amcanion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae copi o Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Bangor ar ein gwefan.

## CYNNAL A DATBLYGU'R GYMRAEG DRWY GYFNOD O NEWID PELLACH

Roedd y cyfnod dan sylw yn un lle roedd y Brifysgol, fel sefydliadau eraill, yn dod allan o gyfnod y pandemig ac yn ceisio ymgyfarwyddo â threfn dysgu a gweithio yn y 'normal newydd'. O ran staff y Brifysgol, gweithio deinamig oedd y drefn a sefydlwyd ac felly roedd arferion gwaith yn gyfuniad o arferion cyn-covid (yn y swyddfa) a'r rhai a fabwysiadwyd yn ystod y cyfnod clo (gweithio o bell). O ran y myfyrwyr, roedd covid yn parhau i rwystro rhai rhag mynychu sesiynau dysgu 'yn y cnawd' o dro i dro ac roedd y Gymraeg yn rhan o'r prosesau a roddwyd mewn lle i annerch hynny. Ymhellach, gwelwyd datblygu adnoddau yn y Gymraeg er mwyn cefnogi iechyd a lles myfyrwyr. Roedd y Brifysgol, felly, yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adnabod ffyrdd o hyrwyddo'i defnydd o fewn cyd-destun a oedd unwaith eto yn llawn newid.

Y llynedd, adroddwyd fod y Brifysgol wedi bod drwy broses ail strwythuro ac wedi datblygu strategaeth gorfforaethol newydd. Crëwyd timau newydd a chyfrifoldebau newydd yn sgil yr ail-strwythuro hwn a datblygwyd hyfforddiant newydd ym maes y Gymraeg i gefnogi staff. Yn 2021-22, datblygwyd is-strategaeth gorfforaethol ar gyfer y Gymraeg sy'n manylu ar sut yr ymdrinnir â'r Gymraeg o fewn meysydd gwaith penodol.

Yn 20/21 roedd 44% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Yn 21/22, mae 43% o staff yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg ac mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod angen parhau i fonitro'r capasiti Cymraeg yn y gweithlu wrth i strwythurau newydd sefydlogi.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Ers dyddiau ein Cynllun Iaith rydym wedi, er enghraifft, sicrhau bod:

- staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio mewn derbynfeydd;
- holl ystod ein gwasanaethau ar gael i fyfyrwyr yn Gymraeg;
- arwyddion yn ddwyieithog;
- cyfle i fyfyrwyr a phartneriaid ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno ceisiadau am arian neu wrth dendro i gynnig gwasanaeth.

Wrth i arferion gwaith a dysgu esblygu, roedd y Brifysgol yn awyddus i sicrhau bod gennym wybodaeth mor gyflawn â phosib am ein myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a'n bod yn eu cefnogi mor effeithiol â phosib, gan bwysleisio iddynt fod y Brifysgol yn lle y mae pob cyfle iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Tynnir sylw at y datblygiadau isod:

- Datblygodd y Brifysgol system dashfwrdd o fewn *Power BI* er mwyn monitro niferoedd siaradwyr Cymraeg ymhlith myfyrwyr a hefyd eu hymwneud â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r datblygiad hwn yn unigryw i Brifysgol Bangor ac yn caniatáu i staff gael gwybodaeth 'fyw' am niferoedd sy'n siarad Cymraeg ac yn astudio drwy'r Gymraeg ar lefel Prifysgol, Coleg, Ysgol a rhaglen radd. Mae data manwl fel hwn yn fodd o (1) hwyluso'r gwaith o sicrhau fod pawb sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael cyfle i wneud hynny a (2) adnabod unrhyw newidiadau ym mhatrwm y data.

- O dan nawdd CCAUC, arweiniodd Prifysgol Bangor brosiect i ddatblygu adnoddau yn Gymraeg i gefnogi iechyd meddwl myfyrwyr. Erbyn Gorffennaf 2022, llwyddwyd i gwblhau pob agwedd o gynllun Myf.cymru a datblygwyd yr adnoddau canlynol:
  - delwedd a gwefan newydd
  - cyfres podlediad o'r enw Sgwrs?
  - cyfieithu ap iechyd a lles 'Symud Ymlaen' i'r Gymraeg'
  - cynhyrchu cyfres o fideos gyda myfyrwyr ledled Cymru yn rhannu eu profiadau o fywyd prifysgol ac iechyd meddwl
  - parhau i ddatblygu a chefnogi'r Rhwydwaith Therapyddion Cymraeg
  - lansio cyfrifon cymdeithasol Facebook, Instagram a TikTok

  Mae hwn yn adnodd hynod o bwysig i bobl ifanc ledled Cymru sy'n dymuno mynediad at gefnogaeth iechyd a lles yn Gymraeg ac yn annerch bwlch amlwg yn y ddarpariaeth.

- Mae'r Brifysgol yn adnabod yr Wythnos Groeso bob blwyddyn fel cyfnod allweddol o ran hyrwyddo hawliau myfyrwyr Cymraeg a'u hannog i astudio drwy'r Gymraeg. Ym Medi 2021, roedd y cyfnod Croeso unwaith eto ar-lein ac ychwanegwyd at yr adnoddau digidol sydd ar gael i gynorthwyo staff i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg: Y Gymraeg yn yr Wythnos Groeso: 5 peth i'w gofio

- O ran hyfforddi a chefnogi staff i gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol yn ddwyieithog a chymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg (beth bynnag fo'u sgiliau iaith nhw eu hunain), datblygwyd dau gwrs newydd ar (1) Ymwybyddiaeth Iaith a (2) Polisi Iaith Gymraeg, gyda ffocws cryf ar ddarparu gwasanaethau.

- Am y tro cyntaf eleni, mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, darparwyd cwrs dysgu ar-lein ar lefel dechreuwyr i fyfyrwyr. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r ddarpariaeth yma gan fyfyrwyr gyda 70 yn cofrestru arno. Mae'r cwrs hwn yn annerch bwlch yn narpariaeth dysgu Cymraeg i fyfyrwyr y mae'r Brifysgol yn falch o fedru ei lenwi a byddwn yn edrych yn fanwl ar sut i barhau i ddatblygu'r gefnogaeth hon.

- Mae platfform dysgu digidol Blackboard yn ddwyieithog ac felly pan oedd angen cyrchu sesiwn ddysgu o bell yn y cyfnod dan sylw roedd modd defnyddio rhyngwyneb Cymraeg. Mae tîm technoleg dysgu'r Brifysgol yn rhagweithiol yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg ar Blackboard. Bu defnydd pellach ar y Trawsgrifiwr a ddatblygwyd gan y Brifysgol dan nawdd Llywodraeth Cymru wrth i'r daith o sicrhau hygyrchedd digidol yn y Gymraeg fynd rhagddi.

- Unwaith eto eleni, bu staff academaidd yn paratoi deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg gan ymateb yn rhagweithiol i'r twf aruthrol mewn adnoddau dysgu digidol. Erbyn haf 2022, roedd dros 50 o becynnau dysgu wedi'u paratoi fel rhan o Brosiect Adnoddau Digidol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda staff Bangor yn chwarae rôl allweddol mewn creu cynnwys a chefnogaeth dechnegol. Yn y flwyddyn dan sylw, datblygwyd podlediad Am Blant gan dîm Astudiaethau Plentyndod, Prifysgol Bangor.

- Er mwyn cefnogi a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r traddodiad Cymraeg ym Mangor, crëwyd fideo, fel rhan o ddathliadau deng mlynedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn tynnu sylw at ddatblygiad darpariaeth academaidd drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol.

## CAMAU DATBLYGU

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu hyfforddiant newydd ym maes y Gymraeg (yn cynnwys arweiniad ar weithredu'r Safonau) gan edrych ar wahanol ddulliau o'i gyflwyno. Byddwn hefyd yn edrych ar gyflwyno (ac ail-gyflwyno) mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb i gefnogi'r Gymraeg wrth i'r cyd-destun ehangach newid.

Mae'r Brifysgol yn falch o nodi y bydd yn buddsoddi mewn adnodd staffio ychwanegol i ymwneud â'r gwaith o gefnogi'r amcanion hyn.

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi. Mae strwythurau cadarn yn eu lle ar gyfer sicrhau bod materion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael ystyriaeth wrth i bolisïau a mentrau newydd gael eu datblygu. Y mae unigolion a chanddynt gyfrifoldeb dros y Gymraeg yn eistedd ar bwyllgorau allweddol y Brifysgol lle mae penderfyniadau polisi perthnasol yn cael eu trafod (e.e. Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol, Grŵp Strategaeth Addysgu a Dysgu, Grŵp Tasg Cydymffurfio).

Yn ystod 2021-22, datblygodd y Brifysgol strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg fel un o is-strategaethau *Strategaeth 2030 – Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol*. Mae Strategaeth y Gymraeg yn manylu ar sut y bydd y Gymraeg yn cael ei chefnogi a'i hyrwyddo ar draws gwaith y Brifysgol o dan y themâu:

- Ethos: prifysgol wirioneddol ddwyieithog sy'n gosod y Gymraeg yng nghanol pob agwedd ar ei gwaith
- Marchnata a Recriwtio
- Addysgu a Dysgu
- Ymchwil
- Profiad Myfyrwyr
- Pontio, a'r Gymuned

Yn allweddol, mae'r is-strategaeth hon yn croesgyfeirio gydag is-strategaethau eraill ac felly yn cryfhau'r gwaith o brif-ffrydio'r Gymraeg i waith y Brifysgol drwyddo draw.

Enghraifft o sut y mae prif-ffrydio'n digwydd ar lefel weithredol yw system Worktribe a roddwyd ar waith gan y Brifysgol yn y cyfnod dan sylw. System yw hon sy'n rheoli cwricwlwm y Brifysgol drwy gywain y wybodaeth am fodiwlau a chyrsiau mewn un lle a bwydo systemau eraill y Brifysgol (e.e. ein gwefan ar gyfer gwybodaeth recriwtio). Gyda chymorth y Brifysgol, sicrhawyd fod croen y system ar gael yn ddwyieithog ac ehangwyd craidd y system gan y cyflenwr i ddal manylion cyrsiau yn y Gymraeg. Mae'r system hefyd yn tywys staff i ystyried a chynllunio ar gyfer y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg drwy ofyn pa gyfran o fodiwl fydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Brifysgol yn edrych ymlaen i weithredu modiwlau eraill o fewn Worktribe ym maes ymchwil a bydd hyd yn dilyn yr un trywydd.

Eleni, sefydlodd y Brifysgol dîm newydd ym maes Cenhadaeth Ddinesig. Mae ymwneud â rhanddeiliaid o Gymru yn rhan allweddol o waith y tîm. Sicrhawyd bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses recriwtio a sefydlwyd tîm sy'n gallu gweithredu'n hyderus yn Gymraeg a Saesneg.

## CAMAU DATBLYGU

Bydd y Brifysgol yn parhau i sicrhau fod ein polisïau a'n datblygiadau newydd yn gwarchod egwyddorion craidd y Safonau – sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.  Byddwn yn edrych ar ddatblygu hyfforddiant penodol (yn enwedig ar gyfer rheolwyr) ym maes y Safonau Polisi ac Asesu Effaith.

## SAFONAU GWEITHREDU

Mae Prifysgol Bangor yn hyderus ei bod wedi perfformio'n dda wrth gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu. Mae hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith wedi bod yn flaenoriaeth i Brifysgol Bangor ers sawl blwyddyn. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu eleni gan y pwyslais ar hyrwyddo ethos wirioneddol ddwyieithog yn strategaeth newydd y Gymraeg. Egwyddorion craidd y strategaeth yw:

- cynyddu nifer yr unigolion sy'n manteisio ar y cyfle i ddysgu Cymraeg yn y brifysgol;
- cynyddu hyder staff a myfyrwyr i ddefnyddio eu Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig, a;
- chreu amodau ffafriol i gefnogi'r cynnydd hwn.

Yn y cyfnod dan sylw, parhaodd y Brifysgol i sicrhau bod modd i staff barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a derbyn negeseuon clir fod y Brifysgol yn annog hynny. Tynnir sylw at rai datblygiadau perthnasol isod:

- Yn 2021/22, gwelwyd cynnydd sylweddol o 63% yn nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg yn y Brifysgol. Yn 2020/21 roedd 86 o staff yn dysgu. Yn 2021/22 mae 140 yn gwneud hynny. Mae'r cynnydd yn y niferoedd sy'n dysgu yn awgrymu bod awydd cryf ymhlith staff i gyfrannu tuag at sicrhau fod Bangor yn Brifysgol wirioneddol ddwyieithog a'n bod, yn unol â'n amcanion strategol, yn cymryd camau ymarferol, llwyddiannus a chynhwysol tuag at lunio'r gweithle dwyieithog hwnnw.

- O ran y ddarpariaeth dysgu Cymraeg i staff, mae ein data yn dangos fod staff yn llwyddo i wneud cynnydd a symud ymlaen i ddarpariaeth ar lefel uwch. Mae cynllun Tystysgrif Cymraeg Gwaith a ddatblygwyd gan ein Tiwtor Staff yn cynnig cyfle i asesu cyrhaeddiad staff. Yn allweddol, mae pwyslais y cynllun hwn ar ddatblygu sgiliau yng nghyd-destun defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r cynnydd hwn drwy'r lefelau yn galonogol gan fod staff sydd ar Lefel 4 / Canolradd ymlaen mewn sefyllfa gref i fod yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

| | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|
| **Lefel 4 / Canolradd** | 12 | 25 |
| **Lefel 5 a 6 / Uwch** | 21 | 24 |
| **Lefel 7 / Hyfedredd** | 7 | 12 |

- Parhaodd tîm cyfieithu'r Brifysgol i arloesi o ran eu defnydd o gyfieithu ar y pryd. Mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw at arfer effeithiol gan y tîm yng nghyd-destun defnyddio technoleg i hwyluso cyfieithu ar-y-pryd mewn cyfarfodydd hybrid: Addasu i'r byd newydd: Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd hybrid (addasydd ar gyfer platfform fideo Zoom)

- O dan nawdd Llywodraeth Cymru, datblygwyd rhaglen ARFer ymhellach gan ddechrau'r gwaith o greu platfform ar-lein ar gyfer y rhaglen sydd yn cefnogi cyd-destun gweithio hybrid.

Mae'r tablau isod yn amlinellu sgiliau Cymraeg staff y Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2022 yn seiliedig ar gategorïau swyddi:

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU SIARAD CYMRAEG**

| | Siarad Cymraeg | Ddim yn Siarad Cymraeg | Siarad Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **218** | **260** | **183** | **661** |
| | **33%** | **39%** | **28%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **135** | **39** | **102** | **276** |
| | **49%** | **14%** | **37%** | **100%** |
| **Clerigol** | **244** | **44** | **82** | **370** |
| | **66%** | **12%** | **22%** | **100%** |
| **Maniwal** | **118** | **65** | **52** | **235** |
| | **50%** | **28%** | **22%** | **100%** |
| **Technegol** | **49** | **17** | **35** | **101** |
| | **49%** | **17%** | **35%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **46** | **132** | **60** | **238** |
| | **19%** | **55%** | **25%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **810** | **557** | **514** | **1881** |
| | **43%** | **30%** | **27%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU DARLLEN CYMRAEG**

| | Darllen Cymraeg | Ddim yn Darllen Cymraeg | Darllen Ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **219** | **280** | **163** | **662** |
| | **33%** | **42%** | **25%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **135** | **42** | **98** | **275** |
| | **49%** | **15%** | **35%** | **100%** |
| **Clerigol** | **245** | **56** | **75** | **376** |
| | **67%** | **15%** | **18%** | **100%** |
| **Maniwal** | **110** | **67** | **53** | **230** |
| | **48%** | **29%** | **23%** | **100%** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Technegol** | **46** | **20** | **37** | **103** |
| | **44%** | **19%** | **37%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **44** | **134** | **65** | **243** |
| | **18%** | **56%** | **26%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **799** | **599** | **491** | **1889** |
| | **43%** | **31%** | **26%** | **100%** |

**HOLL STAFF Y BRIFYSGOL: SGILIAU YSGRIFENNU CYMRAEG**

| | Ysgrifennu Cymraeg | Ddim yn ysgrifennu Cymraeg | Ysgrifennu ychydig o Gymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | **206** | **307** | **140** | **653** |
| | **32%** | **47%** | **21%** | **100%** |
| **Academaidd Cysylltiedig** | **121** | **71** | **84** | **276** |
| | **44%** | **26%** | **30%** | **100%** |
| **Clerigol** | **229** | **61** | **84** | **374** |
| | **61%** | **16%** | **22%** | **100%** |
| **Maniwal** | **95** | **82** | **50** | **227** |
| | **42%** | **36%** | **22%** | **100%** |
| **Technegol** | **45** | **31** | **26** | **102** |
| | **44%** | **30%** | **25%** | **100%** |
| **Ymchwil** | **42** | **147** | **51** | **240** |
| | **18%** | **61%** | **21%** | **100%** |
| **Cyfanswm** | **738** | **699** | **435** | **1872** |
| | **39%** | **37%** | **23%** | **100%** |

## CYRSIAU DATBLYGU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae tîm datblygu staff y Brifysgol yn dîm dwyieithog ac felly yn gallu cynnig pob cwrs a ddatblygir yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg; felly hefyd y tîm Iechyd a Diogelwch a'r tîm technoleg gwybodaeth. Mae'n anodd cofnodi'r union niferoedd / canrannau o staff a dderbyniodd hyfforddiant proffesiynol drwy'r Gymraeg gan fod llawer o'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei gynnig yn ddwyieithog. Yn ystod y cyfnod 2021/22 mae staff y Brifysgol wedi bod yn gweithio yn unol â Pholisi Gweithio Deinamig sy'n

golygu bod cyrsiau wedi parhau ar-lein ond mae rhai sesiynau 'yn y cnawd' wedi'u hailgyflwyno fel bo'r galw.

Fel yr adroddwyd llynedd, lansiwyd y *Rhaglen Rheoli Bangor* yn Medi 2021, sy'n gofyn i reolwyr gwblhau 12 gweithdy ac ymuno mewn grŵp dysgu gweithredol. Mae modd i staff ddewis mynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg ac mae grŵp dysgu gweithredol cyfrwng Cymraeg penodol wedi'i sefydlu. Bu i 13 rheolwr gwblhau'r *Rhaglen Rheoli Bangor* yn ystod y cyfnod dan sylw a chynhaliwyd seremoni wobrwyo yn Rhagfyr 2022 i nodi eu llwyddiant. Roedd pedwar o'r rhain yn staff dwyieithog, wnaeth fanteisio ar y cyfle i fynychu gweithdai cyfrwng Cymraeg a derbyn adborth Myers Briggs yn y Gymraeg. Yn ogystal, mae 40 aelod arall o staff ar ganol cwblhau'r rhaglen, 21 o'r rheiny yn gallu'r Gymraeg ac yn ymuno mewn gweithdai cyfrwng Cymraeg.

Yn y cyfnod dan sylw, datblygwyd a pheilotwyd hyfforddiant newydd i reolwyr - *Rheoli mewn Cyd-destun Dwyieithog*. Mae'r cwrs yn darparu cyd-destun hanesyddol a chyfoes y Gymraeg, y cyd-destun statudol a'r camau y dylai rheolwyr eu cymryd er mwyn cefnogi eu staff i ddefnyddio'r Gymraeg.  Fe'i cyflwynir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cwrs hwn yn rhan greiddiol o *Rhaglen Rheoli Bangor*. Fel rhan o'r peilot hwn, mynychodd 15 o reolwyr y cwrs gyda 5 ohonynt wedi mynychu'r cwrs cyfrwng Cymraeg. Disgwylir niferoedd mwy y flwyddyn nesaf yn dilyn y cyfnod peilot.

Bu i'r Tîm Datblygu Staff dderbyn cais gan dair adran rheng flaen i hwyluso sesiynau datblygu tîm. Cynhaliwyd y rhain yn ddwyieithog gan fod nifer o ddysgwyr yn y timau, gyda chyfle i rannu i grwpiau llai cyfrwng Cymraeg i gwblhau rhai gweithgareddau. Yn nhîm A roedd 6 Rheolwr, Tîm B 15 aelod staff/ 12 yn gallu'r Gymraeg a Thîm C 10 aelod staff/ 6 yn gallu'r Gymraeg. Yn ogystal, derbyniwyd cais gan ysgol academaidd am gwrs Deall Eich Hunain ac Eraill i'r holl staff a gwnaethpwyd gwaith manwl gydag adran arall yn dilyn cyfnod o ailstrwythuro lle cynhaliwyd hyfforddiant i'r tîm cyfan (19 aelod staff) yn ogystal â chyfle i bawb gael cwblhau eu proffil Myers Briggs. Roedd 12 o'r 19 aelod staff yn rhugl yn y Gymraeg a chynhaliwyd eu sesiwn adborth drwy gyfrwng Y Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn cynnig gwasanaeth Cymell (Coaching) i staff a gwnaethpwyd cais am gymhellydd cyfrwng Cymraeg gan ddau aelod staff yn ystod y cyfnod dan sylw.

## SWYDDI GWAG A GOFYNION IAITH

| | **Cymraeg yn Hanfodol** | **Cymraeg yn Hanfodol neu Barodrwydd i Ddysgu** | **Cymraeg yn Ddymunol** | **Dim gofyn iaith** |
|---|---|---|---|---|
| **Academaidd** | 11 | | 50 | 9 |
| **Academaidd Gysylltiedig** | 10 | | 11 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Clerigol** | 29 | | 33 | |
| **Maniwal** | 1 | | 8 | |
| **Technegol** | 4 | | 20 | |
| **Ymchwil** | 6 | | 29 | 34 |
| **CYFANSWM** | **61** | | **151** | **43** |

## CAMAU DATBLYGU

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu system ITrent ar gyfer materion Adnoddau Dynol. Un o'r elfennau cyntaf fydd yn cael eu hymgorffori yn y system newydd yw prosesau recriwtio. Bydd y timau perthnasol yn sicrhau fod gofynion ein Cod Ymarfer ar Benodi Staff yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn y system newydd.

Bydd hyfforddiant Cynefino newydd yn cael ei ddatblygu yn sgil patrymau gwaith newydd a sicrheir fod y Gymraeg yn rhan o hyn.

## CWYNION

Derbyniwyd tair cwyn eleni o dan y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Cynhaliwyd cyfarfod monitro rhwng y Brifysgol a Chomisiynydd y Gymraeg. Llwyddwyd i annerch unrhyw fater a nodwyd yn y cyfarfod hwnnw a oedd yn ymwneud yn bennaf â chywiro / ychwanegu gwybodaeth i systemau ar-lein.

## CASGLIADAU

Roedd cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg yn gam pwysig yn y cyfnod dan sylw ac mae'n ddatganiad clir o fwriad o safbwynt cynnal, datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fel y gwelir uchod, mae'r Brifysgol wedi bod yn cymryd camau i wneud hynny'n rhagweithiol mewn cyfnod o newid. Bydd y Brifysgol yn parhau i edrych am ddulliau o ddatblygu ein gwasanaethau, prosesau a chefnogaeth i weithio yn y Gymraeg yn y flwyddyn sydd i ddod.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

Dr Lowri Angharad Hughes
Pennaeth Polisi a Datblygu
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
l.a.hughes@bangor.ac.uk
(01248) 383293

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am yr adroddiad hwn, cysylltwch â:
Dr Lowri Angharad Hughes
Pennaeth Polisi a Datblygu
Canolfan Bedwyr
Prifysgol Bangor
l.a.hughes@bangor.ac.uk
(01248) 383293